



Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD LLUN, 31AIN HYDREF, 2016

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

LowriHafEvans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd: 21/10/16)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Angela Russell

Elfed Williams

Annwen Daniels (Eilydd)

Aelod Lleol

Y Cynghorydd Ann Williams

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

5 - 6

Y LLANGOLLEN, STRYD FAWR, BETHESDA, GWYNEDD, LL57 3AN

I ystyried y cais uchod

TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:

- 1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2) Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

Eitem 4

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	31 HYDREF 2016
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Y LLANGOLLEN, STRYD FAWR, BETHESDA, LL57 3AN
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH RHEOLEIDDIO

CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo newydd ar gyfer Y Llangollen, Stryd Fawr, Bethesda, LL57 3AN gan Douglas Joseph Barnett o Snooze, 3 Church Walks, Llandudno, Conwy.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, a chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio ar yr eiddo. Bwriedir rhedeg yr eiddo fel tafarn wledig gyda bwyty a rhai ystafelloedd preswyl.

Roedd gan yr eiddo drwydded yn y gorffennol, ond fe ildwyd y drwydded gan y perchnogion ar y pryd, sef Punch Taverns ym mis Tachwedd 2015. Gweler yr atodiad am fanylion Rhan A a B y drwydded a ildwyd. Yn flaenorol, roedd y gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys cerddoriaeth fyw yn ogystal â cherddoriaeth wedi ei recordio. Ni ofynnir am yr hawl i gerddoriaeth fyw o dan y cais cyfredol am drwydded newydd.

Mae manylion yr hyn a ofynnir amdano o ran gweithgareddau trwyddedig ac oriau yn y tabl isod, yn ogystal ag yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED FLAENOROL	TRWYDDED ARFAETHEDIG
Cyflenwi alcohol – Ar yr Eiddo/On Premises	Llun/Monday 11:00 – 01:00 Mawrth/Tuesday 11:00 – 01:00 Mercher/Wednesday 11:00 – 01:00 Iau/Thursday 11:00 – 01:00 Gwener/Friday 11:00 – 01:00 Sadwrn/Saturday 11:00 – 01:00 Sul/Sunday 12:00 – 22:30 Digwyddiadau/Events lawr ychwanegol gwyl banc	Llun/Monday 11:00 – 00:00 Mawrth/Tuesday 11:00 – 00:00 Mercher/Wednesday 11:00 – 00:00 Iau/Thursday 11:00 – 00:00 Gwener/Friday 11:00 – 01:00 Sadwrn/Saturday 11:00 – 01:00 Sul/Sunday 11:00 – 00:00 Digwyddiadau/Events lawr ychwanegol gwyl banc
Cerddoriaeth wedi ei recordio/ Recorded Music Tu mewn/Indoors	Llun/Monday 11:00 – 01:00 Mawrth/Tuesday 11:00 – 01:00 Mercher/Wednesday 11:00 – 01:00 Iau/Thursday 11:00 – 01:00 Gwener/Friday 11:00 – 01:00 Sadwrn/Saturday 11:00 – 01:00 Sul/Sunday 12:00 – 22:30 Digwyddiadau/Events lawr ychwanegol gwyl banc	Llun/Monday 11:00 – 00:00 Mawrth/Tuesday 11:00 – 00:00 Mercher/Wednesday 11:00 – 00:00 Iau/Thursday 11:00 – 00:00 Gwener/Friday 11:00 – 01:00 Sadwrn/Saturday 11:00 – 01:00 Sul/Sunday 11:00 – 23:00 Digwyddiadau/Events lawr ychwanegol gwyl banc

Oriau agor a chau i'r Cyhoedd	Llun/Monday 11:00 – 01:30	Llun/Monday 11:00 – 01:00
	Mawrth/Tuesday 11:00 – 01:30	Mawrth/Tuesday 11:00 – 01:00
	Mercher/Wednesday 11:00 – 01:30	Mercher/Wednesday 11:00 – 01:00
	Iau/Thursday 11:00 – 01:30	Iau/Thursday 11:00 – 01:00
	Gwener/Friday 11:00 – 01:30	Gwener/Friday 11:00 – 02:00
	Sadwrn/Saturday 11:00 – 01:30	Sadwrn/Saturday 11:00 – 02:00
	Sul/Sunday 12:00 – 23:00	Sul/Sunday 11:00 – 01:00
	Digwyddiadau/Events lawr ychwanegol gwyl banc	Digwyddiadau/Events lawr ychwanegol gwyl banc

Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Bwriedir gweithredu polisi gofyn am brawf oedran gan unigolion sydd yn edrych o dan 25
- Gweithdrefnau rheolaeth gadarn a hyfforddiant staff
- Sicrhau nad oes cyffuriau yn cael eu defnyddio nac eu gwerthu ar yr eiddo
- Peidio gwerthu alcohol i unigolion sydd yn ymddangos i fod wedi meddwi
- Arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid adael yr eiddo yn ddistaw
- Cydymffurfio gyda rheoliadau iechyd a diogelwch a than
- Gweithredu system TCC (CCTV)

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Heddlu Gogledd Cymru	E bost – sylwadau ac amodau
Aelod Lleol	E bost – dim gwrthwynebiad
Cyngor Tref	E bost – dim gwrthwynebiad
Gwasanaeth tan ac achub	Llythyr – dim sylwadau
Preswylwyr cyfagos	18 llythyr yn gwrthwynebu

Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru -

Yn dilyn trafodaeth rhwng yr Heddlu a'r ymgeisydd, cytunodd yr ymgeisydd i gynnwys amod ynglŷn â gweithredu system Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ar yr eiddo.

Gwrthwynebiadau – Trigolion lleol

Cafwyd 18 llythyr yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal niwsans cyhoeddus
- Atal trosedd ac anrhefn

Mae'r oll o'r gwrthwynebwyr yn cyfeirio at eu pryderon am ymddygiad gwrth gymdeithasol cwsmeriaid a materion niwsans cyhoeddus megis sŵn a sbwriel gan nodi fod llawer o broblemau wedi codi yn y gorffennol pan oedd yr eiddo o dan berchnogaeth a rheolaeth cwmni ac unigolion eraill.

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn y llythyrau a dderbyniwyd.

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.